

# Cyngor Cymuned Llanbadrig Community Council

Cofnodion o gyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd nos Lun 16/5/2016  
Minutes of the Full Council meeting held on Monday evening 16/5/2016

**Presennol / Present:** Derek Owen (Cadeirydd/Chair), Julia Dobson, Marilyn Hughes, Brian Potter, Tony Hughes, Jack Longman, Elfed Jones, David Livingstone, Dei Owens

**Cynghorwyr Sirol / County Councillors:** Cyng/Cllr Wil Hughes

**Yn Bresennol / In Attendance:** Carli Evans-Thau (Clerc/Clerk), Eira Parry (Cyfieithu/Translation),

**Ymddiheuriadau / Apologies:** Carys Davies, Richard Foxhall (Horizon), Cyng/Cllr Aled Jones

## **1 Croeso / Welcome**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Derek Owen a diolchwyd i bawb am fod yn bresennol. Estynnwyd croeso arbennig i Marilyn Hughes yn dychwelyd ar ol cyfnod yn dioddef a'i iechyd.

*Derek Owen welcomed everyone to the meeting and thanked them for their attendance. A special welcome to Marilyn Hughes returning after a period of ill health.*

## **2 Datgan Diddordeb / Declaration of Interest**

Cyng/Cllr Wil Hughes – materion cynllunio / *planning matters.*

Julia Dobson – Materion yn ymwneud ag Wylfa Newydd / *Matters relating to Wylfa Newydd*

## **3a Adroddiad Cadeirydd / Chair's Report**

Cyn ethol Cadeirydd o'r newydd, cafwyd adroddiad cryno gan Derek Owen o'r hyn oedd y Cyngor wedi ei gyflawni tra roedd wedi bod gadeirydd. Diolchwyd i'r holl aelodau am eu cymorth ac am cyd-dynnu. Mae nifer o brosiectau a phryderon yn parhau e.g. y llyfrgell a'r maes parcio ond teimlwyd bod camau yn cael eu cymryd i'r cyfeiriad cywir.

*Before electing a new chairperson, Derek Owen gave a short report on what the Council had achieved whilst he had been in the Chair. He thanked all members for their support and for working together. A number of projects and concerns are ongoing e.g. the library and car park but it was felt that steps were being taken in the right direction.*

## **3b Ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd / Election of Chair and Vice Chair**

Enwebwyd Derek Owen yn gadeirydd. Cynnig Marilyn Hughes, eilio Elfed Jones a Julia Dobson. Pawb yn cytuno, Dei Owens yn atal ei bleidlais.

Enwebwyd Elfed Jones yn is-gadeirydd. Cynnig Jack Longman, eilio Dei Owens. Enwebwyd hefyd Julia Dobson. Cynnig Tony Hughes, eilio Brian Potter. Yn dilyn pleidlais gudd (cyfartal) penodwyd Elfed Jones yn is-gadeirydd nes yr etholiad.

*Derek Owen was nominated as Chair. Proposed Marilyn Hughes, seconded Elfed Jones and Julia Dobson. All in agreement, Dei Owens abstained.*

*Elfed Jones was nominated as Vice Chair. Proposed Jack Longman, seconded Dei Owens. Julia Dobson was also nominated. Proposed Tony Hughes, seconded Brian Potter. Following a secret vote (equal), Elfed Jones was appointed Vice Chair until the election.*

## **4 Penodi Is-bwyllgorau a Chynrychiolwyr / Appointing Sub-groups and Representatives**

### **Cyllid / Finance**

Tony Hughes, Marilyn Hughes, Julia Dobson, David Livingstone, Carys Davies, Derek Owen, Elfed Jones

### **Pentref / Village**

Jack Longman, Dei Owens, Carys Davies, Brian Potter, David Livingstone, Derek Owen, Elfed Jones

### **Cynllunio / Planning**

Julia Dobson, Tony Hughes, Derek Owen, Elfed Jones

### **Cwynion / Complaints**

Marilyn Hughes, Julia Dobson, Tony Hughes, David Livingstone, Derek Owen, Elfed Jones

### Goleuadau Nadolig / Christmas Lights

Julia Dobson, Brian Potter, Jack Longman, Carys Davies, David Livingstone, Derek Owen, Elfed Jones

### Menter y Pentref / Village Venture

Tony Hughes, Jack Longman, Brian Potter, Dei Owens, Derek Owen, Elfed Jones

### Cynrychiolwyr / Representatives

Clwb Peldroed / Football Club – Dei Owens

Clwb Ffitrwydd / Fitness Club – Dei Owens

Caeau Chwarae / Play Fields – Jack Longman

Horizon PLG - Derek Owen, Elfed Jones, Julia Dobson

Magnox SSG - Derek Owen, Elfed Jones, Julia Dobson

Harbwr / Harbour – Jack Longman, Elfed Jones, Dei Owens

Llywodraethwyr Ysgol / School Governors – Carys Davies

Cronfa Padrig - Derek Owen, Elfed Jones

Un Llais Cymru – Elfed Jones, Julia Dobson

## **5 Cofnodion Cyfarfod Diwethaf / Minutes of the Last Meeting**

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir. Cynigwyd gan Elfed Jones eiliwyd gan David Livingstone.

*The minutes were accepted as a true record. Proposed by Elfed Jones, seconded by David Livingstone.*

## **6 Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes**

### **6.1 10-12 Stryd Fawr / 10-12 High Street**

Mae'r adeilad wedi ei drosglwyddo erbyn hyn. Mae llythyr wedi ei anfon at Menter y Pentref i gadarnhau'r newid a hefyd manylion y banc ar gyfer taliadau rhent. Bydd cais yn cael ei gyflwyno i Horizon ar arian tuag at adnewyddu'r adeilad.

*The building has now been transferred. A letter has been sent to the Village Venture to notify them of the changes and also of the bank details for rent payments. An application will be submitted to Horizon for funding towards the refurbishment work.*

### **6.2 Llwybr Carrog Footpath**

Dal i ddisgwyl ar Aled Owen i gwblhau'r gwaith. Pwyllgor Cyllid wedi cytuno rhoi mis arall iddo cyn penodi rhywun arall.

*Still waiting on Aled Owen to complete the work. Finance committee have agreed to allow another month before appointing someone else.*

### **6.3 Mynwent Y Rhyd Cemetery**

Mae cyfarfod wedi ei drefnu ar gyfer nos yfory (17/5/16) gyda Horizon, Cadarn a'r Cyngor Sir i drafod ymhellach. Cafwyd wybod bod y gwaith i drin y sied wedi ei gwblhau erbyn hyn.

*A meeting has been arranged for tomorrow (17/5/2016) with Horizon, Cadarn and the County Council to discuss further. It was confirmed that the work to restore the shed has been completed.*

### **6.4 Fferm Arae Haul / Solar Farm**

Mae trafodaethau yn parhau gyda'r cwmni. Fe ofynnwyd os oedd y Cyngor wedi gofyn am gyngor cyfreithiol ynglyn a'r mater.

Nodwyd y byddai Elfed Jones yn hoffi gweld y Cyngor yn ail ystyried y cais. Teimlai'r aelodau byddai angen cyfarfod cyhoeddus arall petai hyn yn digwydd.

*Discussions with the company are ongoing. It was asked whether the Council had sought legal advice regarding the matter.*

*Elfed Jones would like to see the Council revisit the application. Members felt that a further public meeting would be required if this was the case.*

## 6.5 **Cae Chwarae / Play Area**

Cadarnhawyd aelodaeth y pwyllgor, gan ychwanegu Jack Longman fel cynrychiolydd y Cyngor Cymuned. Nodwyd bod rhai eitemau yn y cae chwarae angen sylw. Fe gytunodd Jack Longman y byddai yn cadw golwg ar yr offer ac yn casglu sbwriel fel bod angen. Brian Potter a Jack Longman i edrych pa waith oedd angen ei wneud i'r offer chwarae.

*Membership of the committee was confirmed, in addition to Jack Longman being the Community Council representative. It was noted that some items in the play area needed attention. Jack Longman agreed to keep an eye on the equipment and collect litter as required. Brian Potter and Jack Longman to identify what work was required.*

## 6.6 **Goleuadau Nadolig / Christmas Lights**

Bydd trefnu cyfarfod i'r Is-bwyllgor gyda Eryl Davies (Swyddog CSYM) unwaith y bydd yn ol yn ei waith. Bydd angen peth newid i'r system goleuadau gan gynnwys clymau newydd ar adeiladau gwahanol yn ogystal a'r goleuadau eu hunain. Disgwylir i'r gost fod oddeutu £12k.

*A meeting for the sub-committee will be arranged with Eryl Davies (IACC Officer) as soon as he is back at work. The lights system will have to be upgraded substantially including new anchor points on different buildings as well as the lights themselves. It is anticipated that the cost be approx. £12k.*

## 7 **Sedd Wag / Vacant Seat**

Un sydd wedi ymgeisio am y sedd wag. Cytuno cynnal cyfweiliad gan nad oedd llawer o wybodaeth wedi dod i law. Cytuno ar yr un panel ag o'r blaen sef Derek Owen, Elfed Jones, Carys Davies a Julia Dobson. Bydd argymhellid i'r cyfarfod llawn nesaf. Yn absenoldeb Carys Davies, cytuno trefnu dyddiad cyfarfod drwy ebost.

*One individual has shown an interest in the vacancy. Agreed to interview as information provided is limited. Agreed on the same panel as before – Derek Owen, Elfed Jones, Carys Davies and Julia Dobson. A recommendation to be given to the next full council meeting. In Carys Davies' absence, agreed to arrange a date and time by email.*

## 8 **Llyfrgell / Library**

Bydd y Derek Owen a'r Clerc yn cyfarfod a swyddogion CSYM nos Fercher Mai 25 yn Llangefni i drafod beth sydd ar gynnig i'r Cyngor Cymuned a'r costau sydd ynghlwm.

*Derek Owen and the Clerk will be meeting with IACC Officers on Wednesday May 25<sup>th</sup> at Llangefni to discuss what is on offer for the Community Council and what costs are involved.*

## 9 **Maes Parcio / Car Park**

Nid oes mwy o wybodaeth hyd yma. Fodd bynnag, mae'r Clerc wedi bod mewn cysylltiad a Chyngor y Fali sydd wedi datrys problem parcio yn y pentref yn ddiweddar. Maent yn cyfrannu swm i CSYM yn flynyddol er mwyn sicrhau parcio am ddim drwy'r amser, a hynnu heb dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am yswiriant na chynnal y cyfleuster. Pawb yn cytuno gofyn i CSYM ystyried cytundeb tebyg, a threfnu cyfarfod i drafod cyn gynted a phosib.

*There is no further information as yet. The Clerk has however been in contact with Valley Community Council who have recently solved similar planning issues in the village. They contribute an annual sum to IACC to safeguard free parking around the clock, without taking any responsibility for insurance or maintenance of the facility. All agreed to ask IACC to consider a similar agreement and to arrange a meeting to discuss as soon as possible.*

## 10 **Cyllid / Finance**

Cafwyd grynodedeb o'r cyfarfod gan Tony Hughes. Nodwyd bod y rhan fwyaf o'r materion wedi eu trafod eisioes ar agenda'r cyfarfod llawn. Nodwyd bod urinals toiledau'r stryd yn cael eu symud er mwyn gorfodi'r dynion i dalu 20c a defnyddio'r unedau unigol. Gobeithir daw hyn mwy o incwm o'r toiledau tuag at costau eu cynnal (ar gost llawer llai na newid y drysau). Nodwyd hefyd bod y pwyllgor wedi rhoi caniatad i baentio'r canllawiau ger Bonc y mor ac yn disgwyl pris am baentio arwyddion Lon Glascoed a Lon Victoria. Trafodwyd hefyd arwydd newydd ar yr hen dramffordd ond gan mai tir CSYM yw hwn mae'r syniad wedi ei basio at y swyddog tramwy. Gyda nifer o ymddiheuriadau wedi eu derbyn yn barod, bydd y pwyllgor yn cyfarfod wythnos yn gynt mis nesaf.

*Tony Hughes gave an overview of the meeting. It was noted that most matters have already been discussed on the full Council agenda. It was noted that the urinals were being removed from the street toilets in order for the men to pay 20p to use the cubicles. It was hoped that this would bring in more income towards the cost of running the facilities (and much lower cost than new doors). It was noted that the committee had approved the painting of the railings by Bonc y Mor and are waiting on a price for painting the signs for Lon Glascoed and Lon Victoria. A new sign on the old tramway*

was also discussed but as this is on IACC land, the idea has been forwarded to the footpaths officer. With a number of apologies already received, the committee will meet a week earlier than usual next month.

## **11 Cynllunio / Planning**

### **11.1 Penderfyniadau / Decisions**

Cafwyd diweddariad gan y Cyngor Sir am benderfyniadau ddiweddar:

*There was an update from the County Council on recent planning decisions:*

- 1) Farm Cottage – dim caniatad / refused
- 2) Moorings – caniatad / granted
- 3) Brig y Don - caniatad / granted
- 4) Iowa - caniatad / granted
- 5) Vikings - caniatad / granted
- 6) Woburn Hill - caniatad / granted
- 7) 17 Maes Padrig - caniatad / granted
- 8) Canolfan Argyfwng Wylfa Emergency Centre – dim angen asesiad amgylcheddol / Environmental Impact assessment not required

### **11.2 Ceisiadau / Applications**

Roedd tri cais i'w trafod: /There were three applications to discuss:

- 1) 20C41E – 9 Cae Garnedd – dim gwrthwynebiad / no objection
- 2) 20C32B – Castellior – dim gwrthwynebiad / no objection
- 3) 20C265K – Wylfa Newydd

Cyflwynwyd y cais yma ar gryno ddisg. Nodwyd nad oedd gan rai aelodau adnoddau i weld ceisiadau wedi eu cyflwyno yn y ffurf yma ac fe ofynnwyd y byddai pob cais (enwedig prosiectau mawr) yn cael eu cyflwyno ar ffurf copi caled / papur yn y dyfodol. Nid oedd posib gwneud sylw ar y cais.

*This application was presented on a CD. It was noted that some members did not have the resources to be able to view applications presented in a such a manner and it was asked that every application (especially big projects) be presented as a hard copy / paper in future. It was not possible to comment on the application.*

## **12 Wylfa Newydd**

Mae Horizon yn ymgynghori ar hyn o bryd ar y gwaith o glirio'r safle a gwelliannau i'r A5025 tua Fali. Pwysleiswyd ei bod yn bwysig bod pob aelod yn mynychu un o'r sesiynau gwybodaeth dros eu hunain i weld beth oedd yn cael ei gynnig. Roedd rhai eisioes wedi bod i Neuadd y pentref cyn y cyfarfod. Mae Partneriaeth Cyngorau Gogledd Mon eisioes wedi cwrdd ag Horizon i drafod y gwaith. Roedd pryderon ynglyn ag uchdwr a maint y ffens oedd yn cael ei gynnig (3m), diffyg mynediad i gerbydau gwasanaethau argyfwng a dyfodol llwybrau cyhoeddus. Roedd hefyd pryderon mawr ynglyn a diffyg sicrwydd bod pobl a chwmnïau lleol am gael gwaith wrth i'r cwmni gadarnhau mai eu diffiniad o 'bobl lleol' oedd o fewn 90 munud o'r safle (tua Gaer!) Nodwyd nad oed y lon i gyfeiriad Amlwch wedi ei gynnwys a hynnu mae'n debyg gan bod gwaith archwilio yn parhau. Cytuno byddai'r aelodau yn adrodd unrhyw bryderon ychwanegol i'r clerwr cyn iddi anfon ymateb ar ran y Cyngor.

*Horizon are currently consulting on the work to clear the site and improvements to the A5025 towards Valley. The importance of each member attending such information sessions to see the proposals for themselves was emphasised. Some have already bene to the village hall prior to the meeting. North Anglesey Councils Partnership have already met with Horizon to discuss the work. There were concerns regarding the height of the fence proposed (3m), no access for emergency vehicles and the future of the public footpaths. There were also concerns regarding the lack of certainty that local people and companies were going to get any work as Horizon confirmed its definition of 'local' being a 90-minute commute from the site (Chester!) it was noted that the road towards Amlwch had not been included as survey work continues. It was agreed that members forward any additional concerns to the clerk in order to respond on behalf of the Council.*

## **13 Mynediad i'r Anabl yn y Pentref / Disabled Access in the Village**

Mae wedi dod at sylw rhai aelodau bod pobl anabl a'r henoed yn cael trafferth symud o gwmpas y pentref (mae'r problem ar draws yr ynys). Mae angen ceisio sicrhau bod camau yn cael eu cymryd i godi ymwybyddiaeth o'r problemau, a chamau pellach yn cael eu cymryd i'w lleihau a'u datrys. Cytuno bod Julia Dobson yn cysylltu a'r swyddogion priodol yn CSYM i drafod ymhellach ac yn adrodd yn ol i'r cyfarfod nesaf.

*It has come to the attention of some members that disabled people and the elderly find it difficult to move around the village (this is an island wide problem). There is a need to ensure that steps are taken to raise awareness of the issues*

and further steps taken to alleviate and address the issues. Agreed that Julia Dobson contact the relevant officers at IACC to discuss further and report back at the next meeting.

**14** **Gohebiaeth / Correspondence**

**14.1** **Cyngor Sir Mon / Anglesey County Council**

Rhydydd am newidiadau ynglyn a llwybr Pont Carrog / *Notice of changes to the Carrog footpath.*

**14.2** **Cymdeithas Alzheimer Society**

Gwybodaeth am brosiect sy'n cael ei dreialu ym Mon / *Information on a new project being trialled on Anglesey.*

**14.3** **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd / Joint Local Development Plan**

Diweddariad am y cynllun a'r broses o'i fabwysiadu / *Update on the plan and the process of adopting it.*

**15** **Unrhyw Fater Arall / Any Other Business**

**15.1** **Pwyllgor yr Harbwr / Harbour Committee**

Nodwyd bod gan y pwyllgor bryderon ynglyn a tsiaen sydd wedi ei osod ar draws ger Craig y Don. Cytuno edrych i fewn i'r mater a chynnwys yr eitem ar agenda y cyfarfod nesaf.

*It was noted that the committee are concerned about a chain laid across adj. to Craig y Don. Agreed to look into the matter and include the item on the agenda for the next meeting.*

**15.2** **Cofnodion y Cyngor / Council Minutes**

Cytuno byddai copi o gofnodion y Cyngor (Pwyllgor Llawn) yn cael eu arddangos yn llawn yn y hysbysfyrdd yn ogystal ag yn y llyfrgell ac ar y wefan. Tony Hughes ac Elfed Jones i drefnu bod copiau yn cael eu arddangos.

*Agreed that copies of the council minutes (Full Council) be displayed in full in the community notice boards as well as made available at the library and on the website. Tony Hughes and Elfed Jones to arrange that copies are displayed.*

**16** **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf / Date of Next Meeting**

Bydd y cyfarfod llawn nesaf nos Lun Mehefin 20 2016.

*The next full council meeting will be on Monday evening June 20 2016.*

Bu'r cyfarfod orffen am 21.15 / *The meeting closed at 21.15.*